



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cynllun Buddsoddi mewn Odynau Sychu Pren

Nodiadau Cyfarwyddyd

Agor 15 Ebrill 2019

Cau 15 Gorffennaf 2019

CYNNWYS

	PARAGRAFF
Cyflwyniad a chefnidir	3
Llywodraeth Cymru - Manylion Cyswllt	4
Pwy all wneud cais	4
Diffiniad o BBaCh	4
Gweithgareddau cymwys	4
Costau cymwys	4
Cyfradd grant uchaf a'r trothwy grant uchaf	5
Cymorth gwladwriaethol	5
Dewis prosiect llwyddiannus	5
Gofynion allweddol	6
Sut i wneud cais	6
Amodau'r grant	8
Talu'r grant	10
Monitro prosiectau	10
Diwedd y Cynllun Buddsoddi mewn Odynau Sychu Pren	11
Y drefn gwyno	11
Atodiad A: Enghreifftiau o fuddsoddiadau posibl	12

CYFLWYNIAD a CHEFNDIR

1. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn esbonio'r **Cynllun Buddsoddi mewn Odynau Sychu Pren (WKIS)** a'r math o brosiectau a allai fod yn gymwys i gael cymorth grant. Darllenwch nhw'n ofalus. Yna, os ydych o'r farn y gallai'ch cynlluniau buddsoddi fod yn gymwys i gael grant a'ch bod eisiau gwneud cais am gymorth o dan y cynllun hwn, darllenwch yr adran 'Sut i wneud cais ' isod.
2. Mae deunydd pecynnu pren (WPM), paledi yn bennaf, sy'n cael ei fewnforio a'i allforio i wledydd y tu allan i'r UE yn gorfod cydymffurfio â'r Safon Ryngwladol ar Ffytoiechydol Mesur Rhif. 15 (ISPM15). Mae ISPM15 yn darparu dull safonol y gall gwledydd ei ddefnyddio i leihau'r risg o gyflwyno a lledaenu plâu cwarantyn sy'n gysylltiedig â symudiad deunydd pecynnu pren mewn masnach ryngwladol. Mae'r UE a'r rhan fwyaf o drydydd gwledydd eraill yn seilio eu gofynion o ran mewnforio ffytoiechydol ar y safon hon ac mae'n ofynnol i ddeunydd pecynnu pren gael ei drin (gan ddefnyddio siambrau gwres fel arfer) a'i stampio yn unol ag ISPM15.
3. Mewn senario lle nad oes cytundeb, lle mae'r DU yn cael ei thrin fel trydedd wlad, byddai angen i'r holl ddeunydd pecynnu pren sy'n symud rhwng y DU a'r UE gydymffurfio ag ISPM15.
4. Mae risg y gallai hyn amharu ar fasnach oherwydd cynnydd yn y rheolaethau ar ddeunydd pecynnu pren sy'n achosi oedi a chosbau ar gyfer deunydd pecynnu pren sydd ddim yn cydymffurfio.
5. Ychydig iawn o fusnesau yng Nghymru sy'n gallu trin pren â gwres i safon ISPM15 ar hyn o bryd.
6. Mae'r cynllun hwn yn cael ei ariannu'n ddomestig a'i nod yw cynyddu gallu cynhyrchwyr Cymru i gynhyrchu deunydd pecynnu pren sy'n cyrraedd safon ISPM15, ar gyfer paledi pren yn arbennig.
7. Rhaid i'r cynigion am fuddsoddiad ddangos bod marchnad hyfyw wedi'i chanfod ar gyfer eu cynnyrch (cynhyrchion) ac na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen heb y grant. Mae'r cynllun yn un dewisol a byddai'r grant a gynigir yn berthnasol i amgylchiadau'r unigolyn a'r **lleiafswm sydd ei angen** i ganiatáu i'r buddsoddiad fynd yn ei flaen fydd hwn ym mhob achos.
8. Gellir defnyddio'r grant i wella a datblygu'r gwaith o gynhyrchu deunydd pecynnu pren ISPM15 yng Nghymru e.e. i brynu offer newydd neu ail-law cymwys (mae amodau penodol yn berthnasol i offer ail-law). Mae rhagor o enghreifftiau i'w gweld yn Atodiad A.
9. Amlinelliad yn unig yw hwn o'r cynllun a'r ffordd y caiff ei weithredu, a gall y rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwysedd newid.

LLYWODRAETH CYMRU - MANYLION CYSWLLT

10. Ar gyfer pob ymholiad anfonwch e-bost i'r cyfeiriad canlynol:

CynllunBuddsoddiMewnOdynauSychuPren@llyw.cymru

PWY ALL WNEUD CAIS

11. Mae'r cynllun yn agored i geisiadau gan Fusnesau Bach a Chanolig (BBACHau) sy'n ymwneud â phrosesu pren.

DIFFINIAD O BBACH

12. Mae BBaCh yn fusnes sy'n cyflogi llai na 250 o weithwyr (yn seiliedig ar weithwyr cyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn ewro a/neu fantolen flynyddol heb fod yn fwy na 43 miliwn ewro. Dylai staff rhan-amser a gweithwyr tymhorol gael eu trin fel ffracsiwn o weithwyr cyfwerth ag amser llawn.

GWEITHGAREDDAU CYMWYS

13. Mae cymorth o dan y cynllun hwn yn cwmpasu buddsoddiadau diriaethol a/neu anniriaethol a fydd yn gwella gallu'r ymgeisydd i gynhyrchu deunydd pecynnu pren sy'n cydymffurfio â safon ISPM 15.

14. Ystyr buddsoddiadau diriaethol yw gwariant cyfalaf a chostau gosod cysylltiedig. Mae gwariant cyfalaf yn y cyd-destun hwn yn cynnwys buddsoddiadau sefydlog, ffisegol neu rai sydd ddim yn ddefnyddiau traul fel adeiladau, peiriannau ac offer.

COSTAU CYMWYS

15. Gall cymorth o dan y cynllun hwn gwmpasu asedau diriaethol fel tir, peiriannau ac offer:

- a) adeiladu, caffael, neu wella eiddo nad yw'n symudol, gyda thir ond yn gymwys os nad yw'n fwy na 10% o gyfanswm costau cymwys y prosiect buddsoddi
- b) prynu peiriannau ac offer hyd at werth yr ased ar y farchnad

16. Mae cyfarpar ail-law yn gymwys (ar gyfer BBaChau yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- mae'n cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol;
- mae'n addas i'r diben;
- mae disgwyl iddo barhau i weithio am o leiaf bum mlynedd.

CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF

17. Y trothwy grant uchaf i bob menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw c.a. £160,000 i bob derbynnydd.
18. Y trothwy grant uchaf i bob menter ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol yw £10,000.
19. Mae'r gyfradd grant uchaf ar gyfer unrhyw brosiect buddsoddi unigol fel a ganlyn:
 - Busnesau o bob maint – hyd at 100% o gyfanswm cost y buddsoddiad waeth beth fo'r lleoliad

CYMORTH GWLADWRIAETHOL

20. Mae mentrau o dan y cynllun hwn yn gymwys i gael hyd at 100% o gyfanswm y costau buddsoddi ond wedi'i gyfyngu i'r trothwy grant uchaf o €200,000 dros unrhyw gyfnod o dair blwyddyn gyllidol waeth ble mae'r fenter wedi'i lleoli.”
21. Bydd angen i'r ymgeisydd gwblhau datganiad i gadarnhau faint o de minimis y maent eisoes wedi'i dderbyn
22. Bydd y grant a roddir o dan y cynllun hwn yn gymorth sy'n cydymffurfio yn unol â Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1407/20135 (Rheoliad De Minimis Cyffredinol).

DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

23. I gael ei ddewis, rhaid i brosiect, fel y bo angen, ddangos:

Yr angen am weithgarwch:

- bod angen yr allbynnau a byddant yn cyflawni yn erbyn allbynnau'r Mesur
mae'n ategu gweithgarwch presennol ac nid yw'n ei ddisodli a/neu'n ei ddyblygu yn ddiangen.

Yr angen am gyllid:

- ni all fwrw ymlaen yn awr heb gefnogaeth
- nid yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- mae methiant yn y farchnad neu fwch ariannu, lle y bo'n berthnasol.

Y gallu i gyflawni:

- hyfywedd y busnes
- cydymffurfiaeth gyfreithiol
- hyfywedd ariannol a chynaliadwyedd y prosiect, gan gynnwys strategaeth ymadael

- cefnogaeth ac ymrwymiad y rhanddeiliaid allweddol
 - trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.
24. Po fwyaf yw pwysigrwydd y prosiect a'r cyfraniad y gall buddsoddiad y prosiect ei wneud i'r amcanion strategol a thematig priodol, po fwyaf tebygol yw'r prosiect o gael ei argymhell ar gyfer ei ddethol.

GOFYNION ALLWEDDOL

25. Bod y prosiect yn cynnig manteision uniongyrchol neu anuniongyrchol i gynhyrchwyr cynradd yn y sector pecynnu pren.
26. Bod marchnad (hyfyw) arferol ar gyfer cynnyrch (cynhyrchion) y prosiect.
27. Na fyddai'r prosiect yn mynd yn ei flaen heb gymorth grant.
28. Rhaid i'r ceisiadau ddangos bod y canlynol wedi cael sylw hefyd:
- cafwyd caniatâd cynllunio amlinellol, lle bo angen
 - rhoddwyd pob caniatâd, trwydded a chaniatâd arall, lle bo angen
 - ar gyfer busnesau presennol hyfywedd economaidd ac ariannol y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon am dair blynedd yn olynol yn union cyn dyddiad y cais a'r rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
 - cydymffurfiaeth â'r gyfraith ar gyfle cyfartal a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgau cymdeithasol
 - rhaid recriwtio staff allweddol trwy gystadleuaeth deg ac agored
 - cydymffurfiaeth â safonau gofynnol a gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â'r amgylchedd a safonau iechyd a diogelwch
 - argaeledd y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol o fewn y busnes
 - cyrraedd neu ragori ar y radd 'Rhagorol' o dan fframwaith asesu amgylcheddol BREEAM, neu gymhwyster cyfatebol lle bo angen
 - anelu at leihau allyriadau carbon pob adeilad newydd i sero.

SUT I WNEUD CAIS

29. Caiff ceisiadau eu cyflwyno mewn cystadleuaeth uniongyrchol â'i gilydd a disgwylir y bydd galw mawr am y grant sydd ar gael. Bydd busnesau'n cael eu gwahodd i gyflwyno cynigion amlinellol ar gyfer buddsoddiadau newydd. Caiff y cynigion hynny eu hasesu yn erbyn meini prawf a fydd yn dangos gwerth disgwylidig y buddsoddiad neu'r prosiect.
30. Caiff y ceisiadau eu sgorio a'u graddio mewn trefn neu deilyngdod yn ôl y meini prawf dethol cyhoeddedig. Bydd cynigion prosiect yn cael eu dewis yn eu trefn hyd nes y bydd yr arian sydd ar gael wedi'i ddyrannu neu nes cyrraedd

uchafswm nifer y ceisiadau. Nid oes sicrwydd y bydd yr holl arian yn cael ei ddyrannu nac y bydd uchafswm nifer y prosiectau yn cael eu gwahodd.

31. Caiff yr haen 1^{af} o brosiectau eu dewis a bydd llinell yn cael ei thynnu pan fydd cyllideb y cylch hwn wedi'i hymrwymo'n llawn.
32. Ar ôl y 14 diwrnod, bydd 2^{il} haen o brosiectau'n cael eu dewis er mwyn defnyddio'r gyllideb i gyd os bydd unrhyw brosiectau yn yr haen 1^{af} yn gwrthod / ddim yn ymateb.
33. Bydd hyn yn parhau am hyd at dair haen os bydd y gyllideb yn caniatáu.
34. Bydd y cais yn destun gwerthusiad llawn o ddiwydrwydd dyladwy a gwiriadau cymhwysedd a dim ond wedyn y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud i gynnig grant neu wrthod y cais. Nid oes sicrwydd y bydd cynnig prosiect yn cael ei gymeradwyo ar gyfer grant. Fel arfer, bydd y broses o arfarnu ceisiadau llawn yn cymryd tri mis ar y mwyaf o ddyddiad derbyn cais wedi'i gwblhau'n llawn a'r holl wybodaeth berthnasol.
35. **Ni ddylech ddechrau ar unrhyw waith hyd nes y byddwch wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru. Ni fydd unrhyw brosiectau sy'n torri'r rheol hon yn cael eu hystyried ar gyfer grant.**
36. Cewch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch **ond rhaid i'r ffurflen gais gael ei llofnodi gennych chi ac nid gan yr ymgynghorydd. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais yn cael ei gwblhau'n gywir a bod y wybodaeth a roddir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**
37. Pan fyddwch yn cyflwyno eich ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei bod wedi'i derbyn. Os nad yw eich prosiect yn gymwys, byddwch yn cael gwybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw eich cais yn gymwys, bydd yn destun arfarniad technegol ac ariannol manwl. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n bodloni amcanion a blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifiwyd uchod.
38. Mae dau ganlyniad posibl:
 - a) ni chaiff eich prosiect ei ddewis ar gyfer y grant. Cewch wybod cyn gynted â phosibl
 - b) mae'ch prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad grant. Bydd llythyr cymeradwyo yn cael ei anfon atoch yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei llofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau a'r amodau ynddo. Bydd y llythyr hefyd yn rhoi'r awdurdod i chi i ddechrau ar y gwaith.

AMODAU'R GRANT

39. Mae'r Cynllun Buddsoddi yn ddarostyngedig i ystod o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd/derbynydd weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.
40. Mae grant y Cynllun Buddsoddi yn cael ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ganslo eich dyfarniad a/neu adennill symiau a dalwyd eisoes, neu leihau swm y grant sy'n daladwy.**

Amodau:

1. Rhaid derbyn y grant a ddyfernir o fewn un deg pedwar (14) diwrnod gwaith i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.
2. Gwneir y dyfarniad ar sail datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr yn y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

Mae gwneud datganiadau anwir neu gamarweiniol yn drosedd.

3. Ni ddylech ddechrau unrhyw waith ar y prosiect heb sicrhau awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru yn gyntaf.
4. Rhaid i chi fodloni unrhyw ymrwymadau cyfreithiol sy'n berthnasol o dan y gyfraith, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.
5. Ni ellir gwneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
6. Ni ddylai unrhyw offer a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant gael eu gwaredu, eu trosglwyddo na'u gwerthu heb ganiatâd ysgrifenedig Llywodraeth Cymru ymlaen llaw yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd o ddyddiad gorffen y prosiect.
7. Rhaid i unrhyw nwyddau a/neu wasanaethau sy'n cael eu prynu gyda chymorth grant gael eu prynu mewn ffordd gystadleuol a chynaliadwy, er mwyn dangos eich bod wedi sicrhau'r gwerth gorau wrth ddefnyddio arian cyhoeddus. Rhaid i chi beidio â dyfarnu contractau i unrhyw fusnes lle mae'ch buddiannau'n gwrthdaro
8. Mae'n ofynnol i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn Nodyn Cyfarwyddyd perthnasol y Cynllun.
9. Rhaid cyflwyno hawliadau yn y fformat cywir a dylid cynnwys yr holl ddogfennaeth angenrheidiol gyda nhw. Fel arall, ni fyddant yn cael eu derbyn a byddant yn cael eu dychwelyd i'r hawlydd.

10. Rhaid cyflwyno ceisiadau yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni chewch newid amseru a gwerth eich hawliadau sydd wedi'u cytuno heb gytundeb ysgrifenedig Llywodraeth Cymru.
11. Rhaid cyflwyno'r hawliad cyntaf heb fod yn hwyrach na **chwe mis** o'r dyddiad ar y llythyr cymeradwyo.

Os na chaiff yr hawliad cyntaf ei wneud o fewn y cyfnod hwn, gellid terfynu'r cynnig grant.

12. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni allwch newid yr amserlen heb gael cytundeb ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru.
13. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad yw unrhyw rai o'r eitemau a gwmpesir gan y cais yn eitemau cyfnewid o dan hawliad yswiriant.
14. Rhaid i chi roi cadarnhad na ofynnwyd am unrhyw arian cyhoeddus arall (boed o ffynonellau'r UE neu'r DU).
15. Rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd a roddir i'r prosiect gyfeirio at y rhan y mae Llywodraeth Cymru yn ei chwarae yn ei ariannu.
16. Rhaid cadw cofnodion yn ymwneud â gweithgarwch y busnes a chyflawni'r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill fel tendrau neu ddyfynbrisiau cystadleuol, am o leiaf saith mlynedd ar ôl dyddiad gorffen y prosiect fel y nodir yn y llythyr cymeradwyo ar gyfer y grant.
17. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i gynrychiolwyr Llywodraeth Cymru, Archwilydd Cyffredinol Cymru a'r Comisiwn Archwilio archwilio'r prosiect. Ar gais, mae'n rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu roi mynediad at ddogfennau gwreiddiol mewn perthynas â'r prosiect.
18. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennau ategol yn ddarostyngedig i ofynion Deddf Diogelu Data 2018, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.
19. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y cais yn ddarostyngedig i'r Hysbysiad Preifatrwydd. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd yn egluro sut mae Llywodraeth Cymru yn prosesu a defnyddio eich data personol a'ch hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Os byddwch yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu'ch cwmni, swm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.

TALU'R GRANT

Hawliadau

41. Cewch wneud hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau cyfarwyddyd ar sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau a byddwch yn cael gwahoddiad i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod gwariant perthnasol wedi digwydd a bod y gwaith wedi cael ei gwblhau yn unol â'r cynllun y telir hawliadau. Bydd y taliad yn cael ei wneud drwy drosglwyddiad electronig i'ch cyfrif banc.
42. Dylai hawliadau terfynol am daliad grant gael eu cyflwyno cyn gynted ag y bo modd ar ôl i'r gwaith ffisegol ar y prosiect gael ei gwblhau. Rhaid i bob hawliad terfynol gyrraedd erbyn 31 Mawrth 2021 ar yr hwyraf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu talu'r taliad. Gallai peidio â chyflwyno hawliadau arwain at adennill y grant a dalwyd hyd yma.
43. Yn ystod oes y grant, pan gyflwynir hawliadau, mae'n bosibl y byddant yn destun gwaith craffu er mwyn sicrhau bod y gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, ymwelir â safle'r prosiect a chynhelir asesiad manwl o'r prosiect. Mae'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad yn cynnwys; anfonebau gwreiddiol, rhifau cyfresol/peiriannau, tystysgrif gwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol), system lechyd a Diogelwch gan gynnwys dadansoddi risg, dogfennau Asesiad Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005, cofnodion rheoli plâu ac unrhyw gofnodion rheoli statudol eraill y mae'n ofynnol i'r busnes eu cadw. Bydd rhyddhau'r grant yn amodol ar sicrhau cynnydd digonol.

MONITRO PROSIECTAU

44. Bydd gofyn i chi roi diweddariadau rheolaidd am ei gynnydd a thri mis ar ôl ei gwblhau, adroddiad terfynol ar ei berfformiad, pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a'r targedau a nodwyd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn llwyddo i gyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, os na fyddai wedi bod yn gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellir cymryd camau i adennill y grant a dalwyd.
45. Un o ofnion y dyfarniad grant yw y bydd yn rhaid cadw offer sydd wedi'i brynu gyda chymorth grant y Cynllun Buddsoddi mewn Odynau Sychu Pren ac unrhyw adeiladau y telir grant ar eu cyfer, ar y safle, yn weithredol ac mewn cyflwr da, am bum mlynedd o ddyddiad gorffen y prosiect. Mae hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a gwarantu cyfran barhaus o fuddion y prosiect i gynhyrchwyr cynradd.
46. Ymwelir â chanran o'r prosiectau a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad gorffen y prosiect er mwyn sicrhau bod gan yr ymgeisydd yr adeiladau a/neu'r offer a brynwyd gyda'r grant o hyd a'i fod yn parhau i'w

defnyddio, a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

47. Mae'n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion o Lywodraeth Cymru, neu eu cynrychiolwyr, archwilio'r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

DIWEDD Y CYNLLUN BUDDSODDI MEWN ODYNAU SYCHU PREN

48. Rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 31 Mawrth 2021 ar yr hwyraf. Rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn pryd er mwyn i'r cyfrifon a'r cofnodion gael eu harchwilio ac er mwyn i hawliadau gael eu paratoi a'u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

Y DREFN GWYNO

49. Os ydych o'r farn ein bod wedi methu â dilyn y weithdrefn gywir wrth ymdrin â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â gweithdrefn gwyno Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

http://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/complaintspolicy/?lang=cy

ATODIAD A

ENGHREIFFTIAU O BROSIECTAU BUDDSODDI POSIBL

Dyma enghreifftiau o'r mathau o brosiectau a gweithgareddau y gellid eu cefnogi ac sy'n flaenoriaeth o dan y Cynllun Buddsoddi:

- Odynau sychu pren a gwaith paratoi'r pridd
- prynu tir, gan gynnwys ffioedd neu gostau eraill sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r prynu, lle nad yw cyfanswm y costau yn fwy na 10% o gyfanswm y buddsoddiad;